
PRIFYSGOL SWYDD GAERLOYW

Cod Ymddygiad Myfyrwyr (F6)

Contents

1. RHAGARWEINIAD.....	2
2. CWMPAS A DIBEN	2
3. SAFONAU YMDDYGIAD MYFYRWYR	3
4. CAMYMDDWYN AC YMDDYGIAD ANNERBYNIOL	3
5. YMDDYGIAD AR-LEIN	5
6. YMDDYGIAD ANNERBYNIOL TUAG AT STAFF.....	6
7. YMCHWILIO I GAMYMDDWYN HONEDIG MYFYRIWR.....	7

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth teg, cyson a hygyrch i'r holl fyfyrwyr, i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac i fagu ymdeimlad cryf o gymuned.
- 1.2. Mae'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr (y Cod) yn seiliedig ar barch at gymuned y Brifysgol, y gymuned leol ehangach, at unigolion, eiddo a'r amgylchedd. Disgwylir bod pob myfyriwr yn ymwybodol ohono ac yn dilyn ei egwyddorion.
- 1.3. Mae ymddygiad annerbyniol yn effeithio ar allu'r Brifysgol i wneud ei gwaith a darparu gwasanaeth i bobl eraill, ac efallai y bydd angen i'r Brifysgol gymryd camau priodol a chymesur i amddiffyn staff. O ganlyniad, disgwylir y dylai myfyrwyr, a'r rhai sy'n gweithredu ar eu rhan, weithredu'n rhesymol ac yn deg tuag at staff a thrin prosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol â pharch.
- 1.4. Er y cydnabyddir y gall pobl ymddwyn yn wahanol ar adegau o drafferth neu drallod, ni fydd y Brifysgol yn goddef ymddygiad y bernir ei fod yn annerbyniol, ar lafar neu'n ysgrifenedig, a gall olygu y bydd mynediad myfyriwr i weithdrefn, gwasanaeth neu aelod o staff yn gyfyngedig neu'n cael ei dynnu'n ôl. Mae'r Cod yn nodi sut y bydd y Brifysgol yn mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol.

2. Cwmpas a Diben

- 2.1. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i holl fyfyrwyr y Brifysgol o adeg cofrestru (neu adeg cyrraedd neuaddau preswyl, os yw'n gynharach) hyd at gwblhau eu rhaglen astudio yn y Brifysgol (neu adael neuaddau preswyl, neu gwblhau gweithdrefn Prifysgol, os yw'n ddiweddarach).
- 2.2. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i ymddygiad myfyrwyr ar ac oddi ar gampws/adeilad y Brifysgol (gan gynnwys ar-lein). Mae hefyd yn berthnasol i'r rheini sy'n byw mewn llety myfyrwyr y Brifysgol neu'n ymweld â'r llety hwnnw.
- 2.3. Yn achos y rhai wedi'u cofrestru ar raglenni proffesiynol sy'n gosod eu safonau proffesiynol neu eu rheoliadau cymhwyster i ymarfer eu hunain, mae'r Cod hwn yn ategu'r safonau, y rheoliadau neu'r gofynion ymddygiad proffesiynol hynny, ac nid yw'n eu disodli.
- 2.4. Wrth gymhwyso'r Cod hwn, mae'r Brifysgol yn ceisio cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys hyrwyddo preifatrwydd, cyfle cyfartal a gwrth-wahaniaethu.
- 2.5. Mae'n bosibl y bydd digwyddiadau camymddwyn honedig myfyrwyr yn golygu y bydd rhaid troi at Weithdrefnau Ymchwilio ffurfiol y Brifysgol ar gyfer Materion Myfyrwyr, Gweithdrefnau Disgyblu ar gyfer Materion Myfyrwyr, a/neu Weithdrefnau Cymhwyster i Ymarfer (os yw'n berthnasol).

3. Safonau Ymddygiad Myfyrwyr

- 3.1. Mae Siarter Myfyrwyr y Brifysgol yn nodi'r hyn y gall ein myfyrwyr ei ddisgwyl gan y Brifysgol a'r hyn y mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl yn gyfnewid.
- 3.2. Disgwylir i bob myfyriwr fod yn ystyriol o anghenion cyd-fyfyrwyr, ymwelwyr a staff ac integreiddio'n gadarnhaol â thrigolion lleol.
- 3.3. Mae gan y Brifysgol gysylltiadau ardderchog â chwnstabiliaeth yr heddlu. Os nad yw dull anffurfiol wedi bod yn effeithiol neu os yw troseddau yn fwy difrifol neu'n digwydd dro ar ôl tro, gellir barnu bod angen ymchwiliad troseddol; os felly, bydd y Brifysgol yn cefnogi gweithredu o'r fath yn llawn neu'n ei gychwyn os yw'n briodol.

4. Camymddwyn ac Ymddygiad Annerbyniol

- 4.1. Disgwylir i'n myfyrwyr weithredu'n briodol ac ymddwyn fel dinasyddion parchus y Brifysgol a'r gymuned leol. Disgwylir felly bod ein myfyrwyr yn cael eu hystyried yn gyd-lysgenhadon cadarnhaol i'r Brifysgol tra byddant wedi'u cofrestru ar eu rhaglen astudio.
- 4.2. Mae'r camau canlynol, p'un a ydynt yn digwydd yn adeiladau'r Brifysgol neu yn rhywle arall, gan gynnwys ar-lein, yn enghreifftiau o ymddygiad nad ydynt yn dderbyniol i'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, a gallant arwain at ddefnyddio Gweithdrefnau Ymchwilio ffurfiol y Brifysgol ar gyfer Materion Myfyrwyr.
- 4.3. Gallai diffiniad y Brifysgol o 'ymddygiad annerbyniol' a chamymddwyn gynnwys, ond nid yw o reidrwydd yn gyfyngedig i:
 - 4.3.1. Ymddygiad neu ddefnydd o iaith (p'un a yw'n cael ei mynegi ar lafar, yn ysgrifenedig, neu'n electronig) sy'n ymosodol, yn dramgwyddus, yn ddifenywol, yn drallodus, yn fygythiol, yn orfodol, yn ddychrynlyd, yn afresymol o barhaus, yn dreisgar neu'n afreolus; gan gynnwys trais rhywiol neu gam-drin unrhyw un;
 - 4.3.2. Ymddygiad sy'n drosedd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
 - ymosodiad
 - camymddwyn rhywiol
 - unrhyw fath o drosedd casineb
 - lladrad, twyll, ystryw, dichell neu anonestrwydd
 - ymddygiad neu iaith dreisgar, anweddu, afreolus, fygythiol, neu dramgwyddus
 - stelcio
 - defnyddio, meddiannu neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon;

- 4.3.3 Unrhyw fath o fwlio neu aflonyddu - trwy weithredoedd rhithwir (ar-lein), ar lafar neu gorfforol;
- 4.3.4 Ymddygiad aflonyddu, erlid neu wahaniaethu yn erbyn unrhyw un arall ar sail oedran, anabledd, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil , lliw neu gefndir economaidd-gymdeithasol;
- 4.3.5 Unrhyw ymddygiad sydd i'w weld fel ymddygiad parhaus a digroeso sy'n gadael i eraill deimlo dan fygythiad, eu bod yn cael eu plagio neu'n dioddef aflonyddu (yn aml mae'n cael ei alw yn 'stelcio');
- 4.3.6 Ymddygiad sy'n peryglu iechyd a lles pobl eraill. Yn ystod cyfnod y pandemig Coronafeirws a'r cyfyngiadau cenedlaethol cysylltiedig, mae hyn yn cynnwys yr holl ymddygiad sy'n rhoi pobl eraill mewn perygl o drosglwyddo'r Coronafeirws. Felly mae'r Cod hwn yn gofyn am gydymffurfiaid llawn â'r holl gyfyngiadau, gofynion a chanllawiau a gyhoeddir gan y Llywodraeth, Iechyd Cyhoeddus Lloegr neu'r Brifysgol ac sydd â'r nod o leihau trosglwyddiad y feirws ac i gadw myfyrwyr, staff a chymuned gyfan y Brifysgol ac ymwelwyr yn ddiogel rhag Covid-19;
- 4.3.7 Ymddygiad annerbyniol sy'n deillio o yfed gormod o alcohol a/neu gymryd gormod o gyffuriau (anterthau cyfreithlon neu anghyfreithlon);
- 4.3.8 Niwed neu fandaliaeth i eiddo;
- 4.3.9 Camddefnyddio eiddo'r Brifysgol neu ddefnydd anawdurdodedig ohono;
- 4.3.10 Camau sy'n debygol o achosi anaf neu amharu ar weithdrefnau Iechyd a Diogelwch;
- 4.3.11 Arwain neu gymryd rhan mewn unrhyw fath o 'seremoni gychwyn', gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â chlwb chwaraeon, cymdeithas neu grŵp cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymddygiad sy'n cael yr effaith o orfodi neu roi pwysau ar bobl eraill i ymddygiad sy'n beryglus, yn anwedus, yn fygythiol neu'n amhriodol o ran ymuno ag unrhyw glwb, cymdeithas, tîm neu grŵp, neu aros ynddo;
- 4.3.12 Gwneud hawliadau athrodus/enllibus yn erbyn y Brifysgol neu aelod o gymuned y Brifysgol;
- 4.3.13 Gwneud cwynion ffug, gwirion, maleisus neu flinderus;
- 4.3.14 Unrhyw ymddygiad sy'n dwyn anfri ar y Brifysgol;

- 4.3.15 Methu â pharchu hawliau pobl eraill i ryddid cred, lleferydd neu gydwybod;
- 4.3.16 Amharu ar, neu ymyrraeth amhriodol â, gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon, cymdeithasol neu weithgareddau eraill y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr;
- 4.3.17 Rhwystro, neu ymyrraeth amhriodol â swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyrwr, aelod o staff, neu ymwelydd â'r Brifysgol;
- 4.3.18 Methu â datgelu manylion personol i aelod o staff y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr o dan amgylchiadau lle mae'n rhesymol rhoi gwybodaeth o'r fath;
- 4.3.19 Torri unrhyw godau, polisïau, gweithdrefnau neu reoliadau a fabwysiadwyd gan y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr;
- 4.3.20 Cysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol yn ymwneud ag ymddygiad a ystyrir yn gamymddwyn.

5. Ymddygiad Ar-lein

- 5.1 Rhaid i fyfyrwyr gofio sut mae eu hymddygiad ar-lein, boed hynny trwy e-byst, gwefannau, blogiau, y cyfryngau cymdeithasol neu blatfformau negeseua, yn gallu achosi tramgwydd i bobl eraill ac felly yn torri Cod Ymddygiad Myfyrwyr.
- 5.2 Yn ychwanegol at y rhai a amlinellir yn Adran 4, mae'r Brifysgol yn ystyried yr ymddygiadau a restrir isod fel camymddwyn ar-lein:
 - 5.2.1. Postio gwybodaeth bersonol am rywun ar-lein heb ei ganiatâd;
 - 5.2.2. Dynwared ar-lein (e.e. sefydlu proffiliau ar-lein yn enw rhywun arall);
 - 5.2.3. Rhannu neu greu deunyddiau rhywiol preifat (h.y. deunyddiau a wneir o unigolyn gyda'r ddealltwriaeth na fyddai deunyddiau o'r fath yn cael eu rhannu) ar-lein neu mewn gofodau digidol;
 - 5.2.4. Rhannu neu greu deunyddiau rhywiol cyhoeddus (h.y. deunyddiau pornograffig sydd ar gael yn eang trwy'r cyfryngau) ar-lein neu mewn gofodau digidol gyda'r bwriad o aflonyddu'n rhywiol a/neu annog trais ar sail rhywedd;
 - 5.2.5. Cyfathrebu ar-lein sy'n defnyddio gorfodaeth i gael ffafrau rhywiol gan y dioddefwr;
 - 5.2.6. Dosbarthu neu gyhoeddi unrhyw ddeunyddiau electronig gan gynnwys deunydd clyweledol, post y cyfryngau cymdeithasol, blog neu dudalen

we, sy'n sarhaus, yn frawychus, yn fygythiol, yn anwedus neu'n anghyfreithlon.

- 5.3 Sylwch, mae'r rhain yn enghreifftiau o gamymddwyn ar-lein, ac nid ydynt yn rhestr gynhwysfawr.
- 5.4 Bu digwyddiadau lle mae myfyrwyr wedi rhannu sylwadau amhriodol a/neu dramgwyddus ar-lein trwy blatfformau negeseua a sgwrsio 'preifat', lle mae aelodau'r grŵp wedi adrodd pryderon ac wedi rhannu tystiolaeth â'r Brifysgol am gynnwys o'r fath, ac o ganlyniad mae gweithdrefnau ymchwilio/disgyblu ffurfiol wedi cael eu defnyddio. Felly, cynghorir myfyrwyr yn gryf i beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath, ac rydym yn annog unrhyw fyfyrwr sy'n ymwybodol o drafodaethau o'r fath i roi gwybod i'r Brifysgol i ymchwilio iddynt.

6. Ymddygiad Annerbyniol tuag at Staff

- 6.1 Pan ystyrir bod ymddygiad yn annerbyniol (gweler 4.3 uchod), byddwn yn esbonio'r rheswm/rhesymau dros hyn a byddwn yn gofyn i'r myfyriwr, neu'r rhai sy'n cyfathrebu â'r Brifysgol i weithredu ar eu rhan, i addasu eu hymddygiad. Os bydd yr ymddygiad annerbyniol yn parhau, efallai y bydd aelod o staff yn cymryd camau priodol adeg y digwyddiad, ar y dechrau i gyfyngu cyfathrebu mewn cysylltiad â'r polisi, y weithdrefn, neu'r ddarpariaeth gwasanaeth dan sylw e.e. gallant hysbysu'r myfyriwr na fyddant yn ymateb i ohebiaeth bellach os bydd yr ymddygiad yn parhau, neu gallant ddod â thrafodaeth neu alwad ffôn i ben.
- 6.2 Gall aelod o staff adrodd ymddygiad annerbyniol i uwch aelod o staff a fydd yn penderfynu a ddylid cyfyngu ar fynediad myfyriwr i weithdrefn, gwasanaeth neu aelod o staff neu dynnu'r mynediad hwnnw yn ôl. Ni fydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud yn ysgafn ac fel rheol bydd yn cael ei wneud gan reolwr perthnasol sy'n aelod o Fforwm Rheoli'r Brifysgol (h.y. Pennaeth y Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol neu Bennaeth yr Ysgol).
- 6.3 Byddwn yn hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig o'r rheswm/rhesymau pam yr ystyriwyd bod ei ymddygiad yn annerbyniol a'r camau a gymerir gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau i drefniadau mynediad neu dynnu trefniadau mynediad yn ôl a'r amserlen y bydd y rhain yn digwydd. Bydd unrhyw gyfyngiadau/tynnu yn ôl yn briodol ac yn gymesur a gallant gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - 6.3.1 Ei gwneud yn ofynnol bod cywair/iaith y cyfathrebu yn barchus ac yn gymedrol
 - 6.3.2 Gofyn am gyswllt ar ffurf benodol e.e. trwy lythyr yn unig

- 6.3.3 Cyfyngu cyswllt i aelod o staff enwebedig a fydd yn delio â chyfathrebu â'r myfyriwr yn y dyfodol
- 6.3.4 Cyfyngu cyswllt i ddyddiau ac amserau penodol neu drwy apwyntiad yn unig
- 6.3.5 Ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr benodi cynrychiolydd i gyfathrebu ar ei ran
- 6.3.6 Ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr ddod i gytundeb ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol
- 6.4 Yn lle'r camau a restrir uchod, efallai y bydd y rheolwr perthnasol yn ceisio troi at Weithdrefnau Ymchwilio'r Brifysgol ar gyfer Materion Myfyrwyr.
- 6.5 Os bydd mynediad myfyriwr i weithdrefn, gwasanaeth neu aelod o staff yn cael ei gyfyngu neu ei dynnu'n ôl, gall apelio yn erbyn y penderfyniad cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl cael ei hysbysu'n ysgrifenedig i'r Dirprwy Is-ganghellor neu'r enwebai. Ar ôl derbyn y llythyr bydd y Dirprwy Is-ganghellor neu ei gynrychiolydd enwebedig yn ymateb i'r myfyriwr cyn pen 10 diwrnod gwaith. Bydd penderfyniad y Dirprwy Is-ganghellor neu'r enwebai yn derfynol.

7. Ymchwilio i Gamymddwyn Honedig Myfyriwr

- 7.1 Mae achosion o gamymddwyn honedig myfyrwyr yn amrywio yn eu natur a'u cymhlethdod ond pan ystyrir eu bod yn briodol, ymchwilir iddynt o dan un neu fwy o'r canlynol:
- Rheoliadau Academaidd ar gyfer Darparu Gradd Ymchwil
 - Rheoliadau Academaidd ar gyfer Darpariaeth a Addysgir
 - Gweithdrefnau Disgyblu ar gyfer Materion Myfyrwyr
 - Gweithdrefnau Disgyblu Neuaddau Preswyl
 - Gweithdrefnau Ymchwilio ar gyfer Materion Myfyrwyr
 - Gweithdrefnau Cymhwyster i Ymarfer
- 7.2 Cynghorir yn gryf bod myfyrwyr sy'n destun ymchwiliad am gamymddwyn honedig yn gofyn am gyngor a chymorth gan Undeb y Myfyrwyr.
- 7.3 Os yw achos o gamymddwyn honedig yn ganlyniad i broblem gorfforol neu seicolegol, gellir cyfeirio myfyriwr at yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr am gymorth a chyngor naill ai yn ychwanegol at weithdrefn ffurfiol arall neu yn lle gweithdrefn ffurfiol arall.
- 7.4 Yn dilyn canlyniad ymchwiliad efallai y bydd angen i'r Brifysgol ddefnyddio'r Gweithdrefnau Disgyblu Myfyrwyr a/neu weithdrefn arall o'r fath fel sy'n briodol neu berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Terfynu Astudiaethau a Gwaharddiad Parhaol o'r Brifysgol
- Atal Astudiaethau a Gwaharddiad o'r Brifysgol am gyfnod o amser
- Gweithdrefn Cymhwyster i Ymarfer
- Gweithdrefn Astudio â Chymorth
- Is-ddeddfau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Swydd Gaerloyw